## Syniadau ar weddïo'n greadigol

**Yn y tîm**

Gall hwn weithio'n dda gyda phobl sydd â diddordeb mewn chwaraeon tîm. Tynnwch lun gae chwarae a dangoswch un o'r timau arno – dyweder gyda darnau o bapur neu gerrig. Siaradwch am y rhai yn yr eglwys sydd yn y rheng flaen, yng nghanol y cae, yn amddiffyn, yn golwyr ac yn ddyfarnwyr.
Gweddïwch drostynt wrth eu henwau – efallai bydd angen eu hysgrifennu ar y cerrig/papurau. Tynnwch eu sylw fod i bob un ohonom wahanol ran yn y tîm (corff Crist).

